



CYLCHLYTHYR 13.03.2026

Erthygl 27: Yr hawl i fywyd o safon da .

GAIR GAN MR CARBIS

Diolch enfawr i'r holl rieni a werthfawrogodd y gwaith caled a'r amser y mae'r athrawon wedi'u neilltuo i'ch plant i'w helpu i wneud cynnydd ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Mae eich sylwadau cadarnhaol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Cofiwch o ddydd Llun ymlaen mae hi'n bythefnos y Big Walk and Wheel. Bydd parcio i ffwrdd o'r ysgol ac yna cerdded, sgwteri neu feicio yn dal i gyfrif tuag at ein canlyniad. Pob lwc i bawb wrth i ni anelu at gyrraedd canlyniad gwych. Po wellaf y byddwn yn gwneud, y mwyaf yw'r siawns o ennill gwobr.

Ysgol Gynradd Groes-Wen Primary School - Calendr (ysgolgroeswen.cardiff.sch.uk)



16 Mawrth – 27 Mawrth – plis parciwch i ffwrdd o'r ysgol a cherddwch, sgwteriwrch neu feiciwrch ar Rhodfa Plasdŵr fel rhan o'r fenter Big WALK and WHEEL!

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Dydd Mawrth, Mawrth 17

Bydd Rily Publishing yn cynnal Ffair Lyfrau yn y neuadd fach o 2.30 p.m. ymlaen, gyda llyfrau Cymraeg, dwyieithog a Saesneg ar gael am brisiau bargaen.

Neges gan Mrs Tiplady.

Y tymor yma rydym wedi bod yn gweithio ar y cystadlaethau Celf a Chrefft yn ystod Clwb yr Urdd (bob nos lau). Mae croeso mawr i chi hefyd baratoi gwaith Celf a Chrefft adref a dod ag ef i mewn i'r ysgol i ni eu danfon i'r gystadleuaeth. Thema'r gwaith Celf eleni yw 'Breuddwydio.'

Edrychwch ar [Rhestr Testunau 2026](#) | [Urdd Gobaith Cymru](#) am fwy o fanylion o ran y categorïau sydd ar gael a'r rheolau. Cofiwch bod rhaid bod yn aelod o'r Urdd eleni i allu cystadlu.

13/4/26 Dyddiad dod a gwaith Celf a Chrefft i'r ysgol (enw'r plentyn ar y cefnogydd).

20/4/26 Dyddiad cau i'r ysgol gofrestru'r gwaith Celf a Chrefft.

Bydd Mrs Tiplady yn cludo'r gwaith Celf i'r gystadleuaeth ym Mae Caerdydd a'i gasglu ar ol y beirniadu os nad yw wedi cael gwobr 1af.



Cynhelir cyfarfod y Ffrindiau ar-lein drwy Microsoft Teams ar Dydd Llun 23ain o Fawrth am 7:30pm

Pwnc: Ffair Haf - nodwch mai dyma efallai'r unig ddiwyddiad sydd ar ôl ar gyfer y flwyddyn ysgol Bydd manylion ymuno yn cael eu rhannu yn y grŵp WhatsApp cyn y cyfarfod. Edrychwch ymlaen at eich gweld yno!

ffrindiaugroeswen@gmail.com
Instagram, [@ffrindiaugroeswen](https://www.instagram.com/ffrindiaugroeswen).



ysgolgroeswen@cardiff.gov.uk
Instagram: [ysgol_groeswen](https://www.instagram.com/ysgol_groeswen)
02920 598950

